# Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

## Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd: templed ar gyfer astudiaethau achos

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Prifysgol Aberystwyth |
| **Thema Cenhadaeth Ddinesig (dewiswch o'r gwymplen) :** | Leading place |
| **Gweledigaeth ar gyfer Elfennau Ymchwil ac Arloesi (dewiswch bob un sy'n berthnasol):** | ☑ Rhagoriaeth<br>☑ Lle<br>☑ Arloesi<br>☑ Cydweithredu |
| **Teitl yr astudiaeth achos / prosiect / menter:** | Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol |

**Disgrifiad cryno**

Mae Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol Prifysgol Aberystwyth, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2021 ac a gefnogir gan CAYC, yn gosod ymdrech greadigol wrth galon rhaglenni arloesi ac ymchwil y sefydliad. Mae'n cysylltu ymarferwyr artistig y Brifysgol mewn amrywiol Adrannau academaidd â rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru i ddatblygu prosiectau celfyddydau creadigol a dyniaethau newydd.

Dan oruchwyliaeth Deon Cyswllt Ymchwil Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (FASS) Sarah Wydall, a gyda chefnogaeth grŵp llywio traws-ddisgyblaethol, mae'r arweinydd prosiect, yr Athro Matthew Jarvis wedi:

- cymryd rhan yn natblygiad tua dwsin o brosiectau ymchwil neu gyfnewid gwybodaeth;
- a chynnal dau arolwg cwmpasu sylweddol i ganfod ehangder arbenigedd creadigol PA a sut y gall partneriaid allanol elwa o arbenigedd o'r fath.

Mae'r grŵp llywio'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Ganolfan Dechnoleg Amgen, ac mae prosiectau ymchwil a/neu gyfnewid gwybodaeth yn cael eu datblygu ar y cyd â Llenyddiaeth Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, a Chyngor Sir Ceredigion.

**Effaith y prosiect / menter:**

Mae sefydlu'r Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol wedi cael effaith sylweddol ar ymchwil yn seiliedig ar y celfyddydau yn PA, gan arwain at brosiectau/cydweithio newydd ac ymgysylltu cynyddol â'r cyhoedd:

- Gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i ddatblygu cais sylweddol am gyllid yn ymwneud â chwestiynau ynghylch y ffordd orau i alluogi ffuglen sy'n gwerthu'n dda yn y Gymraeg, ac yn hanfodol gefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.
- Mae prosiect 'Dyfodol Cyfansoddiadol' yn defnyddio technoleg ymchwil gofod agored arloesol yn ogystal ag ymarfer barddonol i helpu cyfranogwyr i ddychmygu dyfodol posibl i Gymru.
- Bydd prosiect fydd yn datblygu gwaith adfywio'r stryd fawr gyda Chyngor Sir Ceredigion ar y cyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn golygu y bydd ffenestri siopau di-denant yng nghanol tref Aberystwyth yn arddangos gwaith celf, atgynhyrchiadau o lawysgrifau hanesyddol, ac ymatebion barddonol cyfoes, â'r nod o fynd i'r afael ag ystyriaethau'n ymwneud â dirywiad y stryd fawr ar ôl y pandemig.

Mae prosiectau cymunedol eraill gyda chyfranogiad y Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol hefyd bellach ar y cam peilot gyda chyllid gan Gronfa Ymchwil Prifysgol Aberystwyth:

- Prosiect am farddoniaeth a gorbryder sy'n dod â staff ynghyd i weithio gyda grwpiau o gyfranogwyr o'r gymuned leol i edrych ar sut y gallai ymgysylltu â'r ansicrwydd sy'n un o hanfodion barddoniaeth fel ffurf gelfyddydol gael effaith gadarnhaol ar broblemau gorbryder.
- Prosiect yn edrych ar y defnydd o ymarfer creadigol mewn cymuned leol sy'n trafod sut y gallai cael aelodau o'r gymuned i ysgrifennu naratifau am eu cymuned a'i dyfodol posibl gynorthwyo cydlyniad a hunaniaeth gymunedol.

**Gweithgaredd y dyfodol**

Elfen ganolog o waith y Rhwydwaith ar hyn o bryd yw ei nod i:

- droi prosiectau sydd ar hyn o bryd ar y cam cynllunio'n geisiadau cyllido llawn a
- galluogi prosiectau sydd ar hyn o bryd yn rhedeg fel peilot i ddefnyddio'r peilot eu hunain fel sail ar gyfer ceisiadau cyllido sylweddol.

Yn hyn o beth mae'r holl Rwydwaith yn edrych i'r dyfodol. Mae'n yn golygu bod prosiectau fel y pump a nodir yn yr adran uchod yn symud at ddatblygu i fod yn brosiectau cyllid mwy sylweddol neu waith sy'n ymgysylltu â'r gymuned. Er enghraifft, mae'r gwaith sy'n ymwneud â ffenestri siop yn rhan o fenter draws-gymunedol tymor hirach i ddatblygu cais i Aberystwyth ddod yn Ddinas Llên UNESCO – syniad a ddatblygwyd o fewn y Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol ac a gymeradwywyd mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Sir Ceredigion.

| |
|---|
| Ymhellach, mae ymrwymiad PA i sicrhau llwyddiant parhaus y gwaith i'w weld yn y ffaith iddi gyllido tri o'r prosiectau yn ymwneud â'r gwaith Cyfnewid Creadigol drwy Gronfa Ymchwil y Brifysgol. |
| **Dyfyniadau e.e. gan bartneriaid busnes allanol, graddedigion / myfyrwyr**<br><br>Mewn perthynas â'r gwaith prosiect gyda Chyngor Llyfrau Cymru ar gyhoeddi yn y Gymraeg:<br><br>"Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n gwasanaethu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg, o gomisiynu ac ysgrifennu i ddosbarthu a gwerthiant. Mewn marchnad fach iawn mae gwerthiant yn hanfodol. Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle unigryw i ni edrych ar y rhyngweithio rhwng arddull a safon lenyddol ac agweddau cwbl fasnachol i ganfod y ffactorau sy'n cyfrannu at lwyddiant cyffredinol."<br><br>R. Arwel Jones<br>Pennaeth yr Adran Gyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru |

| | |
|---|---|
| **Cysylltiadau:**<br>**(gwefan; enw cyswllt; cyfeiriad e-bost; rhif ffôn)** | Yr Athro Matthew Jarvis, maj52@aber.ac.uk |

| | |
|---|---|
| **Sut wnaeth y gweithgarwch helpu i gefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (dewiswch bob un sy'n berthnasol):** | ☑ Cymru lewyrchus<br>☑ Cymru gydnerth<br>☑ Cymru iachach<br>☑ Cymru sy'n fwy cyfartal<br>☑ Cymru o gymunedau cydlynus<br>☑ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>☑ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| [Nodwch yn gryno sut yr helpodd y prosiect i gefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015] | |

Gan fod y gwaith y mae Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol yn ei alluogi yn ei hanfod mor amrywiol, mae'n cefnogi'r ystod lawn o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft:

- Mae'r gwaith gyda Chyngor Llyfrau Cymru i gyfoethogi llwyddiant cyhoeddi yn y Gymraeg yn cefnogi Cymru lewyrchus a chydnerth, yn ogystal â Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Mae'r prosiect sy'n archwilio manteision posibl barddoniaeth i unigolion sy'n dioddef gorbryder yn cefnogi datblygu Cymru iachach.
- Mae'r prosiect sy'n ymdrin â gwerth ysgrifennu creadigol i gyfoethogi datblygu cymunedol yn cefnogi Cymru o gymunedau cydlynus.
- Mae prosiect arall sy'n cael ei ddatblygu 'Delweddu Sero Net' yn ymdrin â phwysigrwydd cyfrifoldeb byd-eang ynghylch ystyriaethau argyfwng yr hinsawdd.
- Nod canolog prosiect Dyfodol Cyfansoddiadol yw tynnu'r cymunedau hynny nad ydynt yn aml yn cael llawer o lais wrth ddatblygu newid cyfansoddiadol i mewn i'r sgyrsiau am ddyfodol Cymru - gan felly alluogi Cymru fwy cyfartal.

Un o gryfderau mawr y Rhwydwaith Cyfnewid Creadigol, a hynny'n union am fod ei ymrwymiad i feithrin cydweithio eang wedi'i wreiddio yng ngwaith ymarferwyr creadigol ac ymchwilwyr, yw ei fod yn cyd-fynd mor effeithiol â'r ystod lawn o nodau y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymrwymo iddynt.